

Ramucirumab ar gyfer canser yr ysgyfaint sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig lle nad yw'r celloedd yn fach sydd wedi'i drin yn flaenorol

Awst 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Ni chaiff ramucirumab (cyramza), gyda docetaxel, ei argymhell ar gyfer trin canser yr ysgyfaint sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig lle nad yw'r celloedd yn fach mewn oedolion y mae eu hafiechyd wedi gwaethygu ar ôl cemotherapi sy'n seiliedig ar blatinwm.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Ni ddylid rhagnodi ramucirumab ar y GIG fel arfer ar gyfer canser yr ysgyfaint sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig lle nad yw'r celloedd yn fach sydd wedi'i drin yn flaenorol. Dylai eich meddyg siarad â chi am yr opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael i chi.

Os ydych eisoes yn cymryd ramucirumab ar gyfer canser yr ysgyfaint sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig lle nad yw'r celloedd yn fach sydd wedi'i drin yn flaenorol, dylech barhau i'w gymryd nes eich bod chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn addas rhoi'r gorau i'w gymryd.

Y cyflwr a'r driniaeth

Caiff canser yr ysgyfaint ei grwpio i ddau brif fath o ganser, gan ddibynnu ar ei ymddangosiad o dan ficrosgop: canser yr ysgyfaint celloedd bach a chanser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach. Mae canser sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig yn golygu ei fod wedi lledaenu i'r meinweoedd cyfagos neu i rannau eraill o'r corff.

Mae ramucirumab yn atal tiwmorau rhag tyfu drwy dorri'r cyflenwad gwaed i'r celloedd canser.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint](#), 03000 030 555
- [Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle](#), 0333 323 7200
- [Cynghrair Canser yr Ysgyfaint y DU](#), 01675 477 605
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 0000

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2109-6